

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2013 – 2014

Llun clawr ©  
PANORAMA



**ANTUR NANTLLE CYF**

GWEITHIO ER LLES YR ARDAL



# CYNNWYS

|                                       |    |
|---------------------------------------|----|
| Gair gan y Cadeirydd .....            | 2  |
| Cofio am Elwyn.....                   | 4  |
| Y Bwrdd Rheoli .....                  | 5  |
| Y Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth ..... | 8  |
| Y Pwyllgor Diwydiant ac Economi.....  | 22 |
| Diwedd glo.....                       | 25 |
| Cyfrifon Blynnyddol 2013 – 2014 ..... | 26 |

## GAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle am y flwyddyn 2013 - 2014 i chwi, sy'n cynnwys adroddiad ariannol, crynodeb o'r gweithgareddau, prosiectau a llwyddiannau'r Antur yn ystod y flwyddyn. Ar y cyfan, braf yw cael adrodd iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus arall.

Fel yn y gorffennol, mae'r Antur wedi bod yn brysur iawn, ac eleni wedi ymestyn ein gorwelion drwy fabwysiadu rheolaeth o adeiladau Cwmni Adwy Cyf. Mae Cwmni Adwy yn berchen eiddo mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd, ac wedi dewis Antur Nantlle i reoli eu hasedau ac edrych ar ôl eu tenantiaid. Mae hyn wedi golygu llawer mwy o waith i Robot, Prif Swyddog yr Antur, a mawr yw ein diolch iddo am ei holl waith caled drwy gydol y flwyddyn.

Er y gwaith ychwanegol hwn, mae'r Antur yn glynu at ei strategaeth ac yn canolbwyntio'n gadarn ar ei fusnes craidd o hybu busnesau bach a chreu gwaith yn lleol. Nod y Bwrdd Rheoli yw canolbwyntio ar roi gwasanaeth o'r radd flaenaf i'r tenantiaid, a braf yw nodi fod tenant ym mhob un ond un o'r unedau ar hyn o bryd – rhai ohonynt yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd ac eraill yn mentro am y tro cyntaf. Dymunwn yn dda iddynt i gyd. Byddwn eto, yn y flwyddyn i ddod, yn buddsoddi mewn rhaglen o welliant sylweddol i gynnal a chadw ein hunedau er mwyn sicrhau eu bod o'r safon uchaf. Golyga hyn y byddwn yn gweithredu ar ein cynlluniau i uwchraddio rhai ohonynt.

Ergyd i'r ardal oedd gweld Banc yr HSBC ym Mhenygroes yn cau ei ddrysau am y tro olaf. Ein sialens fawr yn y dyfodol agos yw datblygu a gweithredu cynlluniau cyffrous i'r adeilad fydd yn creu gwaith ac o fudd i'r ardal yn gyffredinol. Rwyf yn falch o gael adrodd fod rhai syniadau arloesol yn dechrau dod i law yn barod, ac edrychwn ymlaen at weld y syniadau'n dwyn ffrwyth.

Mae hyn yn fy arwain at ddatblygiad arall a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn. Roedd y Bwrdd Rheoli yn teimlo byddai'n dda cael syniadau newydd a ffres i ysgogi datblygiadau yn y Dyffryn, ac i'r perwyl hwn, sefydlwyd Grŵp Datblygu newydd sy'n cynnwys criw o bobl frwdfrydig sydd am wneud gwahaniaeth yn eu hardal. Cyflwynwyd rhai o'u syniadau i'r Bwrdd yn barod, a gwerthfawrogir eu cyfraniad. Y gobaith yw y daw rhai aelodau o'r Grŵp yn aelodau llawn o Fwrdd yr Antur yn y dyfodol. Mawr ddiolch iddynt am eu gwaith.

Rydym fel Antur wastad yn edrych am gyfleoedd i gynyddu'r nifer o unedau sydd gennym ac fel mae'r adroddiad yn mynd i'r wasg, rwy'n falch o gael adrodd fod pethau'n argoeli'n dda gan fod gobaith y byddwn yn ychwanegu'n sylweddol at ein portffolio yn y dyfodol agos. Hyderaf y byddwn mewn sefyllfa i adrodd yn fanwl y flwyddyn nesaf. Ein bwriad eto yw rhoi telerau ffafriol a chyfle i bobl ifanc yr ardal i fentro i fyd busnes.

Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth Elwyn Jones Griffith ym mis Hydref. Dros nifer fawr o flynyddoedd bu'n aelod gweithgar, ffyddlon a brwd iawn o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle - a bydd colled mawr ar ei ôl. Ar ran pawb sy'n gysylltiedig â'r Antur, estynnir cydymdeimlad diffuant iawn â'r teulu.

Hoffem hefyd anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Ifan Glyn Jones, Cadeirydd Antur Nantlle, sydd, am resymau iechyd, yn anffodus wedi methu a pharatoi'r cyflwyniad hwn i chi eleni. Mae pawb ohonom, yn staff a chyfarwyddwyr, yn meddwl amdano ac yn edrych ymlaen i'w weld yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn fuan.

Ymestynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan hefyd i Rhian Roberts, Tusw, ac edrychwn ymlaen i weld y siop ar agor a Rhian tu ôl i'r cownter eto yn fuan iawn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu at waith yr Antur mewn unrhyw ffordd – yn swyddogion, gofalwyr, gwirfoddolwyr, aelodau, tenantiaid, adeiladwyr a thrigolion y Dyffryn.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lewyrchus arall ym 2014 - 2015.

Diolch yn fawr,

**Emrys Jones**  
**Is-gadeirydd**



## COFIO AM ELWYN

Ar ddydd Sul 19 Hydref 2014, collodd yr Antur un o'n haelodau mwyaf ffyddlon sef Elwyn Jones Griffith. Braint yw cael rhoi gair byr o ddiolch iddo am ei ymroddiad i'r Antur dros gyfnod o 21 o flynyddoedd, er mor drist yw gorfod gwneud hynny.

Talwyd teyrnged bendigedig i Elwyn yn ei angladd gan nifer o bobl yn cynnwys ei fab, ei wyresau, Alun Ffred Jones (cyn Gadeirydd a Llywydd Anrhydeddus yr Antur) ac eraill. Yno, soniwyd am Elwyn y cefnogwr pêl-droed brwd. Elwyn y dyn teulu. Elwyn y garddwr. Elwyn y Cenedlaetholwr a'r Cymro. Elwyn yr athro. Elwyn y ffrind.

Fel Cyfarwyddwr o'r Antur, fel Elwyn y cydweithiwr a 'dyn ei filltir sgwâr' yr oedd fwyaf amlwg i ni: roedd yn ymgorffori'r dywediad yn berffaith. Yn ymchwilio a chysidro sefyllfaoedd yn drylwyr a gofalus, cyn gwneud sylwadau a chynigion oedd wastad yn cymryd i ystyriaeth sut i wella pethau i ardal a phobl Dyffryn Nantlle – a Phenygroes yn benodol. Sut i greu cyfleon i'n pobl ifanc. Sut i warchod a chryfhau darpariaeth gwasanaethau lleol. Sut i symud pethau yn eu blaen.



*Elwyn Jones Griffith*

Ni chytunai â barn bawb bob amser na phob safbwynt, ac nid oedd ofn arno i leisio ei farn o blaid neu yn erbyn unrhywbeth y credai yn gryf un ffordd neu'r llall amdano chwaith, ond gwnâi hynny yn rhesymol bob tro a dyna oedd un o'i brif gryfderau fel aelod pwyllgor da: rhywun sy'n dweud ei ddweud ac yn rhesymu hynny yn glir.


Bydd colled mawr ar ei ôl yng nghyfarfodydd y Bwrdd rheoli a'r is-bwyllgorau yr oedd yn rhan ganolog ohonynt. Rhwng cyfarfodydd galwai draw i swyddfa'r Antur yn rheolaidd i weld sut roedd pethau'n mynd ac i gynnig gair o gyngor a gwybodaeth oedd wastad yn berthnasol a defnyddiol. Mae'n chwith meddwl na fydd hynny yn digwydd eto. Ond, er mor drist yw colli Elwyn i bawb oedd yn ei adnabod, gyda gwên y cofiwn ni amdano ef a gyda pharch mawr at ei waith i'r Antur dros y blynyddoedd. Gwnawn ein gorau i wireddu'r cynlluniau sydd wedi eu cychwyn gyda chymorth a chefnogaeth Elwyn er lles Dyffryn Nantlle, a chydymdeimlwn gyda'r teulu oll.

Diolch Elwyn, am bopeth,  
gan Staff a Chyfarwyddwyr Antur Nantlle.

## Y BWRDD RHEOLI



*Ifan Glyn Jones,  
Cadeirydd*



*Emrys Jones,  
Is-Gadeirydd*



*OP Huws*



*Dafydd Owen*



*Talfryn Griffiths*



*John Pritchard*



*Gwynne Williams*



*Cyng. Dyfed Edwards*



*Myrddin Williams*



*Richard Wyn Huws*



*Owain Rowlands*



*Cyng. Craig ab Iago*



## **Aelodau'r Bwrdd Rheoli**

---

|                                                |                                              |
|------------------------------------------------|----------------------------------------------|
| Ifan Glyn Jones (Cadeirydd).....               | Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol |
| Emrys Jones (Is-gadeirydd).....                | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol    |
| O P Huws.....                                  | Cyn Cynghorydd Gwynedd a gŵr busnes          |
| Dafydd Owen.....                               | Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor                     |
| Talfryn Griffiths.....                         | Cyfreithiwr wedi ymddeol                     |
| John Pritchard.....                            | Cyfrifydd                                    |
| Gwynne Williams.....                           | Peiriannydd gwresogi                         |
| Dyfed Wyn Edwards.....                         | Arweinydd Cyngor Gwynedd                     |
| Myrddin Williams.....                          | Swyddog Tai Preifat Cyngor Gwynedd           |
| Richard Wyn Huws.....                          | Gŵr camera proffesiynol a gŵr busnes         |
| Owain Rowlands.....                            | Rheolwr Lleoliadau Digwyddiadau              |
| Craig ab Iago.....                             | Cynghorydd Gwynedd a Swyddog Prosiect Bwyd   |
| Elwyn Jones Griffith (m. 19 Hydref, 2014)..... | Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol |

## **Ysgrifennydd y Cwmni**

---

Robat Jones

## **Y Grŵp Datblygu**

---

|                                  |                                              |
|----------------------------------|----------------------------------------------|
| Justin Davies (Cadeirydd).....   | Dylunydd Graffeg                             |
| Siwsan Broda (Ysgrifennydd)..... | Llyfrgellydd a gwraig fusnes                 |
| Rhian Roberts.....               | Perchennog siop flodau                       |
| Eifion Davies.....               | Rheolwr cangen Bangor 'Screwfix'             |
| Catrin Williams.....             | Cynorthwydd Cyntaf a Rheolwr Llawr Cynhyrchu |

## **Cyfarfodydd**

---

Cynhaliwyd 8 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, ac is-grwpiau'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi yn gyson yn ogystal â'r Grŵp Datblygu newydd a sefydlwyd eleni.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 21<sup>ain</sup> o Dachwedd 2013.

Yn unol â'r drefn bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Craig ab Iago, Owain Rowlands, Talfryn Griffiths a Dyfed Edwards. Ail etholwyd y pedwar.

## Staff Antur Nantlle

---

|                  |                                 |
|------------------|---------------------------------|
| Robat Jones..... | Prif Swyddog Antur Nantlle      |
| Bet Hughes.....  | Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg |
| Nerys Jones..... | Gofalwraig y Ganolfan Fenter    |
| Nia Noone.....   | Gofalwraig Tŷ Iorwerth          |



Robat Jones

## Bancwyr

---

HSBC, Cangen Caernarfon.

## Ardal Antur Nantlle

---

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: Carmel, Clynnog Fawr, Dinas Dinlle, Y Fron, Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

## Cyflawniadau 2013 - 2014

---

|                                                                           |       |
|---------------------------------------------------------------------------|-------|
| Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod.....                                  | 89    |
| Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir.....                      | 2,500 |
| Nifer a dderbyniodd hyfforddiant.....                                     | 56    |
| Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth..... | 15    |

## Cyfarfod, Trafod a Chydweithio gyda

---

Cyngor Gwynedd, Y Ganolfan Waith, WEA Cymru, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Amgylchedd Cymru, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Grŵp Cynefin, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llŷs Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Cymuned Llanwnda, Cwmni Adwy Cyf, Cyngor Cymuned Llandwrog, Dyffryn Nantlle 20:20, Menter Llyfni, Grŵp Mynd Amdani, Neuadd Goffa Penygroes, Annog Cyf, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Llandrillo Menai, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyfenter, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Consortiwm Rhif 10, Grŵp Adfywio Dinas Dinlle, Prosiect B3, Y Loteri Genedlaethol, Menter Môn, Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd / Y Bont a nifer o grwpiau a chymdeithasau eraill yn y gymuned.

## Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH

(Cadeirydd: Emrys Jones)

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod pob un ond un o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, bu'r Antur unwaith eto yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleon gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma.

Yn ychwanegol i warchod adeiladau'r Antur, ers dechrau mis Ebrill 2014 mae'r Antur wedi bod yn brysur iawn yn gweithredu fel asiant ar gyfer Cwmni Adwy Cyf, yn gwarchod nifer o adeiladau a gwasanaethu tenantiaid y cwmni ym Mhenygroes, Talysarn, Bethesda, Llanberis, Deiniolen, Blaenau Ffestiniog a Chorris.

### Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR  
01286 882688 [technoleg@anturnantlle.com](mailto:technoleg@anturnantlle.com)

Yn y Ganolfan Dechnoleg mae prif swyddfa Antur Nantlle, sydd ar agor ar y llawr cyntaf rhwng gyb – 5yp yn ddyddiol a ble mae croeso i unrhyw un alw heibio.

Yn ddatblygiad arloesol yn 1990au, roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu gydol oes Cyngor Gwynedd.





Dros y blynyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fath o hyfforddiant yn y maes.

Unwaith eto eleni fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant. Diolch i Goleg Harlech (WEA Cymru) am gydweithio ers y cychwyn cyntaf hyd heddiw i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Cynhaliwyd cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol yma yn ogystal â chysiau i rai mwy profiadol, yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau yn cynnwys gweithdai digidol, defnyddio'r wê ac e-bost yn ddiogel ac effeithiol, creu cyflwyniadau a llawer mwy dan diwtoriaeth trylwyr a difyr Richard Eastwood.

Cafwyd amryw o sesiynau ar hel achau, siopa ar-lein a defnyddio'r wê ar gyfer talu biliau ayb. yn y Llyfrgell gan Liz Regan o Gyngor Gwynedd. Yn ogystal, gwnaed defnydd o'r cyfleusterau i gynnal amryw o gyrsiau a chyfarfodydd ar gyfer y Ganolfan Byd Gwaith, Menter Llyfni a sawl sefydliad arall.

Yn dilyn llwyddiant y cwrs llynedd, mae cwrs dysgu Cymraeg i Oedolion dan oruchwyliaeth Grŵp Llandrillo Menai wedi ailgychwyn, ac yn parhau i fynd o nerth i nerth ar galendr wythnosol y Ganolfan Dechnoleg. Braf yw cael cynnig gwasanaeth o'r fath yma i ddysgwyr lleol yng nghanol y pentref unwaith eto eleni.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd unwaith eto. Mae Antur Nantlle yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth yma.

Mae modd llogi'r ystafell hyfforddiant, yn ogystal â chymryd mantais o'n gwasanaeth 'desg dros dro' am bris rhesymol, ac rydym yn parhau i fod yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr.

Diolch yn fawr i Bet Hughes am gadw swyddfeydd y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

### **Llyfrgell Penygroes**

#### **Llyfrgellydd - Siwsan Broda**

01286 880427 [LLPenygroes@gwynedd.gov.uk](mailto:LLPenygroes@gwynedd.gov.uk)

Mae'r Llyfrgell unwaith eto wedi profi ei hun yn adnodd hanfodol bwysig ym Mhenygroes er budd holl drigolion Dyffryn Nantlle. Fel lle sy'n cynnig mynediad at gatalog enfawr o lyfrau, cylchgronau, DVDs a gemau fideo, mae yma rywbeth at ddant bawb. Mae mynediad i'r rhyngwrwyd drwy ddefnydd y cyfrifiaduron cyhoeddus, ac mae'r cyflenwad bandeang diwifr sydd yn yr adeilad hefyd yn boblogaidd ofnadwy.

Cynhelir sawl gweithgaredd yma i blant a rhieni, gyda sesiynau amser stori a chreffftau wastad yn boblogaidd iawn a phlant o bob oed yn cael y cyfle i fwynhau profiadau creadigol yn eu hardal leol.

Roedd ymateb da iawn i sialens ddarllen yr Haf unwaith eto, gan blant ac oedolion, a braf yw cael cofnodi fod nifer o blant a phobl ifanc y Dyffryn yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu Llyfrgell leol nag erioed ac yn ddarllenwyr brwd. Yn ystod tymor yr ysgol, ar ôl hanner awr wedi tri'r prynhawn, golygfa gyffredin iawn yn y Llyfrgell yw gweld disgyblion yr ysgolion lleol yn ymchwilio a gwneud eu gwaith cartref yn gydwythbodol. Da iawn chi blant.

Ar ben hyn oll, mae'r Llyfrgell yn le sy'n cynnig gwasanaeth cymunedol. Mae pawb a ddaw drwy'r drws yn siŵr o dderbyn croeso cynnes a gwasanaeth clodwiw gan Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes, neu Anwen y Llyfrgellydd Achlysurol. Pleser yw i Antur Nantlle allu parhau i gydweithio gyda'r gwasanaeth pwysig hwn er lles yr ardal.



*Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes*

Am yr ail flwyddyn yn olynol, enillodd Llyfrgell Penygroes y wobwr am y cynnydd gorau o fenthycwyr o holl Lyfrgelloedd Gwynedd, yn cynnwys plant ac oedolion. Tipyn o gamp! Ond eleni daeth gwobr arall i Benygroes hefyd, sef tystysgrif Cymeradwyaeth Uchel o ran Cyfraniad Unigolyn i Siwsan, i gydnabod y safon uchel iawn o wasanaeth cwsmer sydd ar gael yn Llyfrgell Penygroes. Da iawn ti Siw.

Calonogol iawn yw deall fod Llyfrgell Penygroes yn apelio i bobl a phlant o bob oed, a bod y gwasanaeth cwsmer gorau yng Ngwynedd ar gael yma ym Mhenygroes.

### **Gwasanaeth Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd**

#### **Swyddog Adfywio – Kelvin Roberts**

01286 882968 [kelvinroberts@gwynedd.gov.uk](mailto:kelvinroberts@gwynedd.gov.uk)

Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros Ddyffryn Nantlle ers 10 mlynedd erbyn hyn, yn cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'n wir dweud ei fod wedi bod yn rhan annatod o lwyddiant sawl prosiect er lles yr ardal drwy gydweithio gyda nifer o sefydliadau cymunedol yn y Dyffryn a thu hwnt. Unwaith eto, mae diolch yr Antur i Kelvin yn fawr.

Eleni, mae Kelvin wedi parhau i roi cefnogaeth i nifer helaeth o grwpiau, pwyllgorau a sefydliadau lleol drwy roi cyngor; helpu yn ymarferol i baratoi cynlluniau, dogfennau cymdeithasu a cheisiadau grant; a chydweithio efo adrannau eraill Cyngor Gwynedd i sicrhau fod Dyffryn Nantlle yn elwa cymaint â phosib o unrhyw ddatblygiadau.

Os oes gennych chi syniad i wella eich cymuned a diddordeb mewn sefydlu menter gymunedol newydd, neu os ydych yn ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth, cysylltwch â Kelvin. Mae ei arbenigedd yn ei faes wedi helpu nifer o fentrau i sefydlu, datblygu a ffynnu er lles yr ardal leol.




Kelvin Roberts, Swyddog Adfywio

### **Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle** **Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB**

Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny.

Mae'r ystafell gyfarfod ar gael i'w llogi am bris rhesymol i gwmnïau ac asiantaethau allanol ar gyfer cyfarfodydd a chyrsiau ac ati fel arfer, ond am yr ail flwyddyn rydym wedi gosod yr ystafell i gwmni Proarb sy'n ei ddefnyddio fel swyddfa i'r cwmni gan fod ein swyddfeydd eraill yn llawn.

Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni Torwoods yn Uned 1; derbyn gwasanaethau plymio o safon uchel gan gwmni Andrew Roberts Cyf yn Uned 2; prynu rhannau a nwyddau ceir o bob math yn ogystal â thorri goriadau yn Celtic Auto Parts yn Unedau 3, 4 a 5; a llogi a thrwsio systemau PA gan CS Audio yn Unedau 6 a 7. Mae Castnets yn gwerthu offer pysgota yn Swyddfa 2, ac yn Swyddfa 1 mae Proarb – arbenigwyr coedyddiaeth sydd





â'u swyddfa ardal yma. Yn yr lard mae Alan Jones a'i gwmni Weldio AWJ. Braf iawn yw cael adrodd fod digon o amrywiaeth a bwrllwm fel arfer felly yn y Ganolfan Fenter.

Diolch yn fawr i Nerys Jones am gadw'r Ganolfan Fenter yn lân ac yn dwt bob amser.



Joe Spooner, Torwoods



Emma Squires, Celtic Auto Parts



## **Siop / Gweithdy, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG**

**Oriel Llun-Mewn-Ffrâm**

**01286 882056 [meic@oriellunmewnffram.co.uk](mailto:meic@oriellunmewnffram.co.uk)**

Mae siop Meical Roberts – Llun Mewn Ffrâm – yn parhau i fod yn boblogaidd iawn ym Mhenygroes, gyda phobl yn teithio yma o bell i weld ei arddangosfeydd o waith celf gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru megis William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Carys Bryn a Diane Williams i enwi ond ychydig.

Mae Meical hefyd yn cefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac yn gwerthu nifer o grefftau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, cerddoriaeth Gymreig, hwdis a mwy.



Dyma'r lle i fynd am wasanaeth fframio o safon uchel heb son am y croeso a phaned sydd wastad ar gael.

Mae waliau'r oriel werth eu gweld, wedi eu haddurno gydag amrywiaeth o luniau yn ogystal â geiriau rhai o ganeuon a cherddi mwyaf arwyddocaol y Gymraeg wedi eu hysgrifennu gan y cyfansoddwyr a'r beirdd eu hunain.

Mae yma gelf a chrefft o safon uchel iawn ac mae'r siop wastad wedi ei chyflwyno yn ddeniadol iawn. Os am anrheg ar gyfer unrhyw achlysur neu rywbeth arbennig i'ch cartref, cofiwch alw heibio – chewch chi mo'ch siomi!



### ***Fflat, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG***

Mae'r Antur yn arbenigo mewn gosod unedau gwaith i fusnesau lleol am delerau rhesymol, ond pan ddaeth y cyfle i allu cynnig lle i fyw i bobl lleol hefyd, roedd yr Antur yn falch iawn o wneud hynny.

Wedi ei adnewyddu i safon uchel, mae'r fflat dwy lofft yn le braf a chyfleus iawn i fyw a bum wrthi eleni yn gwneud mân waith cynnal a chadw i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartref o safon i'n tenant.



### ***'Siop 22'***

***10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR***

Mae adeilad 10 Heol y Dŵr ym Mhenygroes wedi ei leoli mewn man canolog yn y pentref ac yn cynnwys tair swyddfa ar y llawr uchaf a siop ar y llawr gwaelod. Dyma esiampl dda o ffordd i gadw adeilad mewn ardal fel Dyffryn Nantlle at ddefnydd busnes lleol cynaliadwy, a hynny ar un o brif strydoedd masnachol yr ardal.

Yn dilyn buddsoddiadau sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a rhagor o waith cynnal a chadw eleni, mae Siop 22 fel y'i gelwid yn lleol werth ei weld.





Cewch yno amrywiaeth eang o gynnyrch a gwasanaethau yn cynnwys blodau ffres, crefftiau, gemwaith, cardiau cyfarch ac anrhegion; cyngor busnes ac economaidd ar gyfer prosiectau bach a mawr; gwasanaeth hypnotherapi clinigol ar gyfer ymdrin â nifer o gyflyrau a phroblemau; a gwasanaethau dylunio ar gyfer cardiau busnes, gwefannau, arwyddion a llawer mwy.

## Y Siop

Yn fusnes teuluol dan reolaeth gofalus a thrylwyr Rhian Roberts, ers agor ei ddrysau ddwy flynedd yn ôl bellach – mae siop flodau **Tusw** wedi dod yn un o brif siopau Penygroes yn cyflenwi blodau o safon uchel at unrhyw achlysur.



Mae'r siop werth ei gweld gydag amrywiaeth o flodau ffres ar gael yno. Mae yma hefyd grefftiau bach wedi eu gwneud â llaw, cardiau cyfarch Cymreig, blodau mewn potiau, gemwaith trawiadol a llawer mwy.

Mae Tusw wedi ennill clod am wasanaeth proffesiynol ar gyfer priodasau, angladdau, dathliadau a llawer mwy, yn ogystal ag am y nosweithiau difyr sy'n cael eu cynnal yno.

Mae Tusw ar gau am gyfnod ar hyn o bryd oherwydd rhesymau iechyd a dymunwn wellhad buan iawn i Rhian a gobeithiwn ei gweld tu ôl i'r cownter eto yn fuan.

Chwiliwch am Tusw ar Facebook i weld esiamplau o waith cywrair Rhian.

## Swyddfa 2

Mae cwmni Marc Roberts o'r Groeslon, sef **Ymgynghori MARC Consultancy**, wedi ei sefydlu ers bron i bedair blynedd bellach. Mae Marc yn darparu cyngor strategol ac economaidd i fusnesau ac yn brofiadol iawn yn ei faes wedi gweithio fel Swyddog, Rheolwr ac Uwch Reolwr gyda nifer o wahanol asiantaethau yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Marc**



Mae'n arbenigwr ar ddarparu cyngor economaidd a strategol a chreu cynlluniau busnes, ac fel 'hogyn Dyffryn Nantlle' mae'n falch o gael gweithio yn ei ardal ei hun.

Oherwydd natur ei waith a'i brofiad eang, mae'r Antur yn cydweithio'n aml gyda Marc ar brosiectau er lles yr ardal. Mae gweld Dyffryn Nantlle yn mentro a llwyddo, a chreu cyfleon i bobl leol yn achos agos iawn i'w galon, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei ymroddiad a'i barodrwydd i gydweithio.

Mae Marc yn gwneud gwaith i nifer o fusnesau, grwpiau ac asiantaethau, ac yn weithgar iawn yn ei amser rhydd gyda Chlwb Pêl droed Tref Caernarfon ac fel aelod o fwrdd rheoli cwmni Galeri Caernarfon Cyf.



Am gymorth gyda'ch busnes, cysylltwch gydag Ymgynghori MARC Consultancy ar **01286 882677** neu [marconsultancy@btconnect.com](mailto:marconsultancy@btconnect.com).

### Swyddfa 3

David Davies a'i fusnes **Hypnotherapi Gwynedd Hypnotherapy** yw ein tenant yn Swyddfa 3. Yma, mae'n darparu gwasanaethau hypnotherapi clinigol ar gyfer cleifion ac yn eu helpu gyda phob math o gyflyrau yn cynnwys gorbwysedd, ofnau dwys, pyliau o banig, pryder a mwy.



Gallwch gysylltu â David, aelod o Gymdeithas Hypnotherapi Clinigol Prydain, ar **07743 516711** neu [www.dj-hypnotherapy.co.uk](http://www.dj-hypnotherapy.co.uk).

### Swyddfa 4

Ein tenant yn Swyddfa 4 yw Justin Davies, sy'n rhedeg cwmni **Dylunio Gringo Design**. Mae Justin yn arbenigwr ar greu gwaith graffeg o bob math a phan nad yw'n perfformio gydag aelodau eraill ei fand llwyddiannus – Gwibdaith Hen Frân – mae'n darparu gwaith brandio, deunyddiau marchnata, argraffu, gwefannau a gwaith dylunio o'r safon uchaf un i'w gleientiaid.

Cysylltwch â Dylunio Gringo Design ar **01286 882561** neu [post@gringodesign.co.uk](mailto:post@gringodesign.co.uk) gyda'ch anghenion – mi fyddwch yn falch eich bod wedi gwneud hynny.



Mae'r Antur wedi cydweithio gyda Justin ar sawl prosiect yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith brandio drwy gynllun Pecynnu'r Profiad (gweler tudalen 22 am ragor o fanylion). Mae gwaith dylunio Justin ar y prosiect twristiaeth hwn – yn cynnwys arwyddion, pamffledi a gwefan – i gyd o safon uchel iawn ac werth eu gweld. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith da, ac yn hyderus bydd y deunyddiau proffesiynol hyn yn gymorth mawr wrth i ni geisio hybu'r ardal er mwyn denu ymwelwyr a chryfhau'r economi yn y dyfodol.



## **Y Barics**

***Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD***

Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrsedd oedd Y Barics erstalwm ond erbyn heddiw maent wedi eu troi yn unedau at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Unwaith eto, bu cryn dipyn o wariant yma eleni wrth i ni gynnal a chadw'r adeiladau hanesyddol yma sydd dan reolau cadwraeth, a'r tir o'u cwmpas. Mae'r Antur yn ddiolchgar i Wasanaeth Cadwraeth ac i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am eu cyngor a'u harweiniad yn ddiweddar.



Bu Allan Humphreys, gŵr busnes lleol yn brysur drwy gydol y flwyddyn yn torri'r gwair a'r coed ar y safle ar ein rhan ac mae ein diolch iddo yntau yn fawr am gadw'r Barics mewn cyflwr da. Rydym yn falch iawn o allu rhoi gwaith rheolaidd i fusnes lleol.

Rhoddwyd cais i mewn i ymestyn ein hawl cynllunio presennol ar gyfer codi uned wyliau ar y safle, ac fel mae'r adroddiad yn mynd i'r wasg rydym newydd gael gwybod fod y cais wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn gobeithio y bydd modd symud ymlaen gyda'r cynllun hwn yn y dyfodol pan bydd ffynonellau cyllid ar gael, er mwyn creu cyfleon gwaith i bobl leol yn Nantlle.

## Uned 1

**Gwasanaethau Ynni Willmott Dixon** oedd ein tenant yn Uned 1, sef cwmni sy'n arwain ar gynllun Arbed 2 i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi o fewn ardaloedd penodol ar draws Cymru. Ond, daeth gwaith y cwmni yn Nantlle i ben ac felly bu i ni ffarwelio gyda hwy fel tenant.

Wedi hysbysebu'r uned am gyfnod, rydym wedi ail osod yr uned i Ivy Jo Lucas o Gwm Pennant. Merch ifanc wedi graddio o Brifysgol Bangor ydyw Ivy, a bydd ei busnes ar-lein newydd – **Anrhegion I Will Survive** – yn defnyddio'r uned fel swyddfa, storfa a phencadlys y cwmni. Dymunwn yn dda i Ivy ar ddechrau cyfnod cyffrous iawn yn ei bywyd gan obeithio daw llwyddiant i'w busnes.

## Uned 2



**Canolfan Llys Llywelyn** yn Uned 2 yw canolbwynt bywyd cymdeithasol pentref Nantlle gyda chriw prysur yn trefnu bob math o weithgareddau sydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd. Mae'r Antur yn falch o allu cynnig safle o safon i ganolfan o'r fath. Os cewch gyfle i alw draw am banded a sgwrs, mae'n werth gwneud hynny.

Gyda chymorth Willmott Dixon, gosodwyd sustem gwres canolog nwy yn cynnwys bwyler a gwresogyddion yn Uned 2 gan fanteisio ar y cyflenwad nwy sydd wedi cael ei osod yn Nantlle yn ddiweddar ac mae'r ganolfan yn fwy clud a chynnes nag erioed.

## Uned 3

Peter a Wendy Midwinter gyda **Railways Unlimited** sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, cynhyrchu, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Mae'r arddangosfeydd manwl yma yn cymryd oriau maith i'w hadeiladau ac mae'r gwaith yn gywrain ofnadwy. Mae yma wledd i unrhyw un sy'n frwdfrydig dros reilffyrdd a threnau gyda'r modelau yn ennill clod mewn sawl cylchgrawn mawr am eu safon.





## Uned 4


Yn Uned 4 mae Dyfrig Peris a Jennie Corr yn rhedeg **Peris a Corr**; cwmni sy'n arbenigo mewn argraffu crysau-T a thecstilau organig. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argraffu â sgrin hefo inciau dŵr - argraffu ar grysau-T, bagiau cynfas ayyb. Maent hefyd yn cynllunio tecstilau a chardiau cyfarch eu hunain, ac mae'r holl waith papur a chardiau cyfarch yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu.

Eleni, bu i'r cwmni arddangos yn sioe Pulse yn Earls Court, Llundain, ble cyflwynwyd casgliad newydd o decstilau gyda sawl patrwm newydd yn cynnwys llinellau bwrdd newydd sbon. Mae Peris & Corr hefyd wedi bod wrthi'n brysur yn dylunio eu casgliad cyntaf erioed o waith serameg, sydd, fel popeth arall â gynhyrchir gan y cwmni, o safon uchel iawn.

Cysylltwch â Dyfrig a Jennie ar **01286 881787** neu [gwybodaeth@perisandcorr.com](mailto:gwybodaeth@perisandcorr.com). Gallwch hefyd siopa ar-lein ar wefan [www.perisandcorr.com](http://www.perisandcorr.com).



## Uned 5



Bill Pywell yw ein tenant yn Uned 5, ble mae wedi sefydlu gweithdy **Gwaith Coed Gwyrdd** sydd werth ei weld. Mae Bill yn arbenigwr ar greu dodrefn a chreiriau o bob math allan o goed, ac mae ei waith yn gwbl unigryw a thrawiadol iawn. Bu Bill yn arddangos ei waith yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol wyliau crefft a da yw clywed fod nifer o bobl yn ymddiddori yn y sgiliau yma er mwyn eu cadw'n fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Mewn cydweithrediad â WEA Cymru, mae Bill yn parhau i redeg nifer o gyrsiau gwaith coed gwyrdd i ddysgu'r grefft a'r technegau i rai sydd â diddordeb. Braf iawn yw cael adrodd fod nifer o bobl ifanc ac oedolion yn cael eu diddanu wrth ddysgu yn yr uned.

## Tŷ Iorwerth

39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES

Mae pob un o'r swyddfeydd sydd ar ddau lawr uchaf adeilad Tŷ Iorwerth yn parhau i fod yn llawn, a bum yn falch o ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw yn yr adeilad eleni er mwyn cadw'r lle ar ei orau er budd ein tenantiaid.

Diolch yn fawr i Nia Noone am gadw Tŷ Iorwerth yn lân ac yn dwt bob amser.

Yn anffodus cafwyd ergyd go drom i'r ardal gyfan wrth i HSBC gau eu drysau am y tro olaf ar ddiwedd mis Mehefin.

Bu i ni gydweithio gyda nifer o fusnesau'r ardal a Chyngor Cymuned Llanllyfni, yn ogystal â'r Cynghorwyr, yr AS a'r AC lleol, i geisio newid meddwl un o fanciau mwyaf y byd, ond ofer fu ein hymdrechion yn anffodus. Anodd iawn yw deall sut na ellid cyfiawnhau cadw cangen o'r banc yn agored ym Mhenygroes, gyda chymaint o ddefnydd ohoni a'r Antur yn gyfrifol am gynnal yr adeilad hefyd, ond dyna fu'r penderfyniad yn swyddfeydd pell HSBC a chau bu'r hanes.



Pan brynodd Antur Nantlle yr adeilad gan yr HSBC yn 2002 ataliwyd y banc rhag cau ei ddrysau bryd hynny, ond bu lleihad yn yr oriau agor. Erbyn 2014, nid yw canghennau bach lleol i weld yn gweddu gyda pholisïau rhan fwyaf o'r banciau mawr o ganoli bob dim mewn trefi mawr, a bu i Benygroes, fel sawl ardal arall yng nghefn gwlad Cymru a thu hwnt, ddioddef o achos i'r gyfundrefn hon.

## Edrych ymlaen

Yn ddi-os mae'r ardal wedi colli gwasanaeth pwysig, ond ein gobaith a'n bwriad yw troi'r sefyllfa ar ei ben i lawr drwy ddatblygu ased gwerthfawr er budd yr holl gymuned yma. Rydym yn agored i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithredu cynllun er lles Dyffryn Nantlle.

Mae'r Grŵp Datblygu mewn partneriaeth â Marc Roberts yn gweithio ar syniadau sy'n ymwneud â datblygu cyfleon o amgylch y diwydiant beicio lân – rhywbeth sy'n tyfu yn sydyn yn yr ardal – gan fawr obeithio bydd modd eu gweithredu yn y dyfodol agos.



Rhan arall o'n cynlluniau yw gweithredu Cynllun Peintio y Grŵp Datblygu, y ceir ychydig mwy o wybodaeth amdano ar dudalen 23 a 24. Mae'r darlun ar y dudalen flaenorol yn rhoi syniad o'r math o effaith rydym yn gobeithio ei wneud ar gongl Heol y Dŵr a Ffordd y Sir gyda chynllun y Grŵp Datblygu, a gobeithio bydd modd i ni wneud hynny yn fuan yn 2015.

## **Swyddfeydd 1-4**

### ***Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan***

O'u canolfan ym Mhenygroes mae llinell gymorth trais yn y cartref yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion drwy Gymru gyfan.

Mae'r Llinell Gymorth yn helpu ac yn arwain pobl sydd â phrofiad o gamdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol, yn ogystal â'r rheiny sydd angen mynediad at wasanaethau megis cyngor, cefnogaeth frys, diogelwch a gwybodaeth am eu hawliau a'u hopsiynau.



Bydd pawb sy'n galw Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan yn cael gwasanaeth o'r safon uchaf bob tro gan wybod cânt drafod eu pryderon yn hollol gyfrinachol.

Mae'r gwasanaeth ar gael yn rhâd ac am ddim ar **0808 8010800** neu [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk).

## **Swyddfa 5**

### ***Cymuned***

Mae Cymuned yn fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymru ac yn denant i Antur Nantlle ers 2011.



Yn Nhŷ Iorwerth mae prif swyddfa Cymuned ac mae'r Antur yn falch o allu cynnig cartref i fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymreig.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgareddau Cymuned ar [www.cymuned.org](http://www.cymuned.org) a [www.twitter.com/Cymuned](https://www.twitter.com/Cymuned).



## Swyddfa 6

### Cris Jones

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn cynnig gwasanaethau cyfieithu.

Mae Cris yn gwneud gwaith cyfieithu o bob math ac yn cynnig telerau rhesymol a gwasanaeth prydlon bob tro.

Ffoniwch Cris gyda'ch anghenion cyfieithu ar **01286 880444**.



## Swyddfa 7

### Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru

Ben Gregory ac Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yw ein tenant yn Swyddfa 7. Sefydlwyd yr ymgyrch ym 1986 i gefnogi pobl Nicaragua gyda'u dymuniad am fywyd gwell mewn amgylchiadau caled, ac mae'n parhau i weithio i gefnogi trigolion y wlad hyd heddiw.



## Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI

(Cadeirydd: Dafydd Owen)

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n gyfnod anodd, sydd wedi gweld lleihad pellach mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno. Yr ydym yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Mae dau brif grŵp wedi bod yn edrych ar gynlluniau eleni, sef y Grŵp Twristiaeth a'r Grŵp Datblygu.

### Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle

(Cadeirydd – OP Huws)

Mae gan ardal Dyffryn Nantlle cymaint i'w gynnig o ran y maes awyr agored: llwybrau, mynyddoedd, golygfeydd godidog a glan-y-môr bendigedig; heb sôn am ddiwylliant, hanes ac iaith gwbl unigryw. Mae'r Antur yn ymwybodol iawn o'r potensial economaidd i'r ardal sy'n bodoli ym maes twristiaeth, ac mai'r rhwystr i ddadgloi'r potensial yma yw'r diffyg presennol mewn adnoddau a chyfleon i ddenu twristiaid i Ddyffryn Nantlle.

Sefydlwyd y Grŵp Twristiaeth rai blynyddoedd yn ôl i edrych ar gyfleon i ddatblygu'r ardal i fod yn gyrchfan dwristiaeth, sydd gyda diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg fel canolbwynt iddo.

Eleni, adeiladwyd ymhellach ar yr astudiaethau a gomisiynwyd gan yr Antur, megis Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle, Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Cynllun Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dyffryn Nantlle, a'r gwaith a wnaed o drafod datblygu gweithgareddau awyr agored gyda grwpiau sydd â diddordeb yn yr ardal.

### Bro Lleu

Mewn cydweithrediad â Chyngor Cymuned Llanwnda, Grŵp Adfywio Dinas Dinlle, Dyffryn Nantlle 20:20 a Menter Llyfni, mae'r Antur wedi bod yn gweithio ar



gynllun Pecynnu'r Profiad i greu brand a deunyddiau hyrwyddo'r ardal – ardal **Bro Lleu**. Bellach, mae ffrwyth y gwaith yma i'w weld gydag arwyddion trawiadol a deniadol yn llawn gwybodaeth ar gael i ymwelwyr wedi eu gosod ym Mhenygroes ac yn Rhostryfan. Mae 10,000 o bamffledi i hysbysebu Bro Lleu hefyd wedi eu creu i geisio denu rhagor o ymwelwyr yma i fwynhau yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig, a chyfrannu i'r economi leol drwy wario yn siopau a'r busnesau'r ardal.



Byddwch yn rhan o'r **chwedl** ...  
Be part of the **legend**...

Cefnogir hyn oll gyda gwefan dwristiaeth arbennig – [www.brolleu.co.uk](http://www.brolleu.co.uk) a fydd yn cael ei datblygu ymhellach dros amser i fod yn adnodd fwyfwy gwerthfawr i ddiwydiant twristiaeth Dyffryn Nantlle.

### **Canolfan Dwristiaeth**

Does dim dwywaith fod angen canolfan bwrpasol ar gyfer datblygu twristiaeth yn yr ardal, felly eleni mae'r grŵp wedi bod yn rhoi cymorth i Menter Llyfni i drafod gyda pherchennog Canolfan yr Ozanam yn Llanllyfni - Cymdeithas St. Vincent de Paul - ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, i weld os oes modd prynu'r adeilad a datblygu canolfan wyliau bwrpasol yma.

Gweledigaeth y grŵp yw canolfan sy'n cynnwys gwesty a bwyty o safon uchel, yn ogystal â chanolfan ddehongli treftadaeth a hanes lleol ac sydd hefyd yn darparu ar gyfer pob math o weithgareddau awyr agored. Canolfan a fyddai'n ganolbwynt i adeiladu diwydiant twristiaeth sylweddol o'i gwmpas, a cham cyntaf hollbwysig i gryfhau economi'r ardal a chreu cyfleon hyfforddiant a swyddi da i bobl leol.



Mae Cyngor Gwynedd wedi ymestyn cynnig i gydweithio ar lefel strategol ar brosiect mawr i'r Dyffryn, ond rhaid yn gyntaf cael perchnogaeth ar safle addas ar gyfer y ganolfan. Mae'r daith wedi bod yn un hir hyd at y pwynt yma, ond mae ein gwaith i wireddu cynllun twristiaeth mawr er budd trigolion yr ardal yn parhau.

### **Y Grŵp Datblygu**

**(Cadeirydd – Justin Davies; Ysgrifennydd – Siwsan Broda)**


Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol llynedd, penderfynnodd y Bwrdd Rheoli sefydlu grŵp arbennig o wirfoddolwyr i weithredu fel grŵp datblygu syniadau, gyda phump aelod cychwynnol. Ers ffurfio, mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac wedi gweithio'n galed i ddatblygu cynllun peintio ar gyfer rhai adeiladau ym mhentref Penygroes.



Mae trafodaethau wedi bod gyda chwmni cynhyrchu paent, ac ar hyn o bryd maent wrthi yn gweithio ar fanylion y cynllun gyda'r bwriad o'i lansio yn ystod Gwanwyn 2015 mewn partneriaeth â'r Antur a pherchnogion eiddo Penygroes.

Bydd pecyn gwybodaeth ar gael i drigolion Penygroes yn fuan a'n gobaith yw gwneud argraff fawr ar y pentref gyda'r cynllun drwy gael cymaint o gyfranogwyr â phosib.

Mae'r grŵp hefyd wedi bod yn trafod sawl syniad ar gyfer adeilad y banc, ac maent wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu canolfan beicio lôn pwrpasol a fyddai hefyd yn adnodd i bobl leol i'w ddefnyddio. Edrychwn ymlaen i weld y syniad yn datblygu ymhellach ac os bydd popeth yn ffafriol yna symud ymlaen i'w wireddu.



## Grŵp Y Fic

Mewn ymateb i'r ffaith fod y Fic yn peri gofid i holl drigolion yr ardal ers blynyddoedd, ac yn rhwystr pendant i ddatblygiadau eraill yn yr ardal; llynedd, comisiynodd Antur Nantlle astudiaeth ddichonoldeb i geisio canfod cynllun i roi diwedd ar broblem y Fic unwaith ac am byth, ac ar sail y cynllun hwnnw euthum ati i lunio ceisiadau grant. Bu'r Antur yn llwyddiannus gyda rhai ceisiadau ond nid oedd modd denu'r holl arian oedd ei angen mewn pryd y tro hwn, er mawr ein siom am hynny.

Yn y cyfamser, gosodwyd y Fic i denant ac mae'n cael defnydd fel siop elusen Plant yr Ardal ar hyn o bryd. Rydym yn falch o weld yr adeilad yn dod yn ôl i ddefnydd ac yn mawr obeithio bydd modd gwella cyflwr a diogelwch yr adeilad a'r safle yn y dyfodol agos.




## DIWEDDGLO

Mae'r Antur yn gweithredu am y bedwaredd flwyddyn gydag un swyddog yn unig, ond mae ein gobaith o allu cynnig swyddi ychwanegol eto o fewn y cwmni yn y dyfodol yn parhau. Drwy ddatblygu prosiectau newydd, ein gobaith yw gallu cynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â chreu cyfleon eraill yn lleol fel canlyniad i'r prosiectau hynny drwy ysgogi pobl i fentro eu hunain.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu yn ôl ym 1991, sef datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i Ddyffryn Nantlle. Mae gennym nifer o gyfrifoldebau eraill erbyn hyn megis gwarchod ein hadeiladau a'n tenantiaid, sy'n bwysig iawn i ni – a chan fod ein ffiniau oddi mewn i ardal Dyffryn Nantlle mae'r gwaith hwn llawer yn haws a ninnau yn un teulu mawr.

Er mor heriol yw'r cyfnod presennol, gyda'r toriadau sylweddol sy'n wynebu'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, edrychwn ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau. Gobeithio cawn wireddu ein cynlluniau i fuddsoddi er mwyn sicrhau perchnogaeth leol ar ragor o adeiladau masnachol yn y Dyffryn. Gobeithio hefyd y cawn weld ein cynlluniau ym maes twristiaeth yn dwyn ffrwyth, er mwyn ateb yr angen mawr sy'n bodoli i greu cyfleon gwaith a hyfforddiant i bobl leol.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau; gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal.



*Dyffryn Nantlle o ben Mynydd Mawr gan Iestyn Roberts*

## **CYFRIFON BLYNYDDOL 2013 – 2014**

**ANTUR NANTLLE CYF.**

Rhif Y Cwmni : 2618216

**CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2014**

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI  
CYFRIFWYR SIARTREDIG  
CAERNARFON**



## ANTUR NANTLLE CYF.

| Cynnwys                                  | Tudalen |
|------------------------------------------|---------|
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr                 | 1       |
| Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr | 2       |
| Adroddiad Yr Archwilwyr                  | 3       |
| Cyfrif Incwm a Gwariant                  | 4       |
| Mantolen                                 | 5       |
| Nodiadau                                 | 6 - 7   |
| Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl            | 8       |

**ANTUR NANTLLE CYF.**  
**Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2014**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2014.

**Prif Weithgareddau**

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

**Aelodau'r Bwrdd Rheoli**

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

|                      |                                      |
|----------------------|--------------------------------------|
| Owen Pennant Huws    | Ifan Glyn Jones                      |
| Talfryn Griffiths    | Richard Wyn Huws                     |
| John Pritchard       | Emrys Jones                          |
| Dafydd Owen          | Myrddin Williams                     |
| Elwyn Jones Griffith | Craig ap Iago                        |
| Dyfed Wyn Edwards    | Gwion Owain (ymddiswyddod 22.7.2013) |
| Gwynne Williams      | Owain Rowlands                       |

**Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr**

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

**Archwilwyr**

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariarthau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 24-05-2014

*Ifan Glyn Jones*  
 Drwy orchymyn y bwrdd  
 I.G. JONES

**ANTUR NANTLLE CYF.**  
**Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr**


Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad: 24-05-2014

  
 Brwy orchymyn y bwrdd



### Adroddiad Yr Archwilywyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2014 ar dudalennau 4 i 7. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008), ac o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn ol y polisiau cyfrifyddol a restrir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilywyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiatei'r trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

#### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilywyr

Mae cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am baratoi y datganiadau ariannol yn unol a rheolau cyfreithiol

a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig) wedi eu mynegi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilywyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmnïau Llai (Diwygiedig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

#### Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r symiau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dywyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2014 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Ddeddf Cwmnïau 2006.

#### Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

#### Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os

yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddiwrth ganghenau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyfun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofnol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach.

  
Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)  
ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni  
Archwilywyr Statudol a Cyfrifywyr Siartredig

Dyddiad: 24/5/14

**ANTUR NANTLLE CYF.**  
**Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2014**

|                                 | Nodiadau | Gweithrediadau<br>Parhaol<br>2014 | Gweithrediadau<br>Parhaol<br>2013 |
|---------------------------------|----------|-----------------------------------|-----------------------------------|
|                                 |          | £                                 | £                                 |
| <b>Incwm</b>                    |          | <b>93,137</b>                     | <b>82,400</b>                     |
| Gwariant                        |          | <u>(89,354)</u>                   | <u>(80,530)</u>                   |
| <b>Incwm Sy'n Weddill</b>       | 2        | <b>3,783</b>                      | <b>1,870</b>                      |
| Llog Derbyniadwy                |          | <u>59</u>                         | <u>58</u>                         |
| <b>Gweddill Cyn Trethiant</b>   |          | <b>3,842</b>                      | <b>1,928</b>                      |
| Trethiant                       | 3        | <u>(12)</u>                       | <u>(12)</u>                       |
| <b>Gweddill Ar Ol Trethiant</b> |          | <b>3,830</b>                      | <b>1,916</b>                      |
| Gweddill Ddygwyd Ymlaen         |          | <u>122,082</u>                    | <u>120,166</u>                    |
| <b>Gweddill Cariwyd Ymlaen</b>  |          | <u>125,912</u>                    | <u>122,082</u>                    |

**ANTUR NANTLLE CYF**  
**Mantolen Ar Fawrth 31, 2014**

|                                                                | Nodiadau | 2014           |                | 2013           |                |
|----------------------------------------------------------------|----------|----------------|----------------|----------------|----------------|
|                                                                |          | £              | £              | £              | £              |
| <b>Asedau Sefydlog</b>                                         |          |                |                |                |                |
| Asedau Cyffyrddadwy                                            | 4        |                | 250,545        |                | 275,379        |
| <b>Asedau Cyfredol</b>                                         |          |                |                |                |                |
| Dyledwyr                                                       | 5        | 7,062          |                | 18,285         |                |
| Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw                                   |          | <u>104,518</u> |                | <u>87,685</u>  |                |
|                                                                |          | 111,580        |                | 105,970        |                |
| <b>Credydwyrr:</b> symiau sy'n ddyledus<br>o fewn y flwyddyn   | 6        | <u>(8,336)</u> |                | <u>(9,682)</u> |                |
| Asedau Cyfredol Net                                            |          |                | <u>103,244</u> |                | <u>96,288</u>  |
| <b>Cyfanswm Asedau Llai</b><br><b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b> |          |                | 353,789        |                | 371,667        |
| Croniadau Ac Incwm Gohiriedig                                  | 7        |                | (227,877)      |                | (249,585)      |
|                                                                |          |                | <u>125,912</u> |                | <u>122,082</u> |
| <b>Cronfeydd</b>                                               |          |                | <u>125,912</u> |                | <u>122,082</u> |

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15  
o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach ac yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol  
i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008).

Ian Glyn Jones Cyfarwyddwr I. G. JONES

S. M. Pritchard Cyfarwyddwr S. M. PRITCHARD

24/05/2014 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

**ANTUR NANTLLE CYF.**  
**Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2014**

**1 Polisiau Cyfrifyddol**

*Y sail gyfrifyddol*

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol a'r Safon Adrodd i Unedau Llai.(Effeithiol Ebrill 2008)

*Asedau sefydlog cyffyrddadwy*

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

|                  |                                     |
|------------------|-------------------------------------|
| Tir ac adeiladau | - 4% o'r gost pob blwyddyn          |
| Offer            | - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau |
| Cyfrifiaduron    | - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau |

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

*Grantiau*

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

*Archwilwyr*

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

**2 Incwm Sy'n Weddill**

Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;

|                              | 2014<br>£     | 2013<br>£     |
|------------------------------|---------------|---------------|
| <i>Rhoi credyd am;</i>       |               |               |
| Incwm Gohiriedig a ryddhawyd | <u>21,708</u> | <u>21,708</u> |
| <i>Ac ar ol codi am:</i>     |               |               |
| Dibrisiant                   | 24,834        | 24,964        |
| Archwilio                    | <u>1,920</u>  | <u>1,890</u>  |

**3 Treth Gorfforaeth**

|                           | £         | £         |
|---------------------------|-----------|-----------|
| Darpariaeth am y Flwyddyn | <u>12</u> | <u>12</u> |



## ANTUR NANTLLE CYF.

## 4 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

|                            | Tir Rhydd-ddaliad     |                     |                       |
|----------------------------|-----------------------|---------------------|-----------------------|
|                            | Ac Adeiladau          | Offer               | Cyfanswm              |
|                            | £                     | £                   | £                     |
| <b>Cost</b>                |                       |                     |                       |
| Ar Ebrill 1af 2013         | 605,713               | 24,561              | 630,274               |
| Ychwanegiadau              | -                     | -                   | -                     |
| Gwarediadau                | -                     | (9,791)             | (9,791)               |
| Ar Fawrth 31 2014          | <u>605,713</u>        | <u>14,770</u>       | <u>620,483</u>        |
| <b>Dibrisiant</b>          |                       |                     |                       |
| Ar Ebrill 1af 2013         | 333,199               | 21,696              | 354,895               |
| Codiant am y flwyddyn      | 24,228                | 606                 | 24,834                |
| Gwarediadau                |                       | (9,791)             | (9,791)               |
| Ar Fawrth 31 2014          | <u>357,427</u>        | <u>12,511</u>       | <u>369,938</u>        |
| <b>Gwerth Ar Bapur Net</b> |                       |                     |                       |
| <b>Ar Fawrth 31 2014</b>   | <u><b>248,286</b></u> | <u><b>2,259</b></u> | <u><b>250,545</b></u> |
| Ar Fawrth 31 2013          | <u>272,514</u>        | <u>2,865</u>        | <u>275,379</u>        |

## 5

| Dyledwyr                        | 2014                | 2013                 |
|---------------------------------|---------------------|----------------------|
|                                 | £                   | £                    |
| Dyledwyr Eraill                 | 2,040               | 13,335               |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd | <u>5,022</u>        | <u>4,950</u>         |
|                                 | <u><b>7,062</b></u> | <u><b>18,285</b></u> |

## 6

| <b>Credydwy:</b> symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn | £                   | £                   |
|---------------------------------------------------------|---------------------|---------------------|
| Credydwy eraill                                         | 5,774               | 6,828               |
| Treth Gorfforaeth                                       | 12                  | 12                  |
| TAW                                                     | <u>2,550</u>        | <u>2,842</u>        |
|                                                         | <u><b>8,336</b></u> | <u><b>9,682</b></u> |

## 7

| <b>Croniadau Ac Incwm Gohiriedig</b> | £                     |
|--------------------------------------|-----------------------|
| Ar Ebrill 1af, 2013                  | 249,585               |
| Swm a Rhyddhawyd                     | 21,708                |
| <b>Ar Fawrth 31, 2014</b>            | <u><b>227,877</b></u> |

**ANTUR NANTLLE CYF.**  
**Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2014**

|                                      | 2014       |                     | 2013       |                     |
|--------------------------------------|------------|---------------------|------------|---------------------|
|                                      | £          | £                   | £          | £                   |
| <b>Incwm</b>                         |            |                     |            |                     |
| Gwasanaethau                         |            | 6,320               |            | 7,893               |
| Rhent Canolfan Fenter                |            | 18,263              |            | 14,550              |
| Rhent Swyddfeydd                     |            | 38,497              |            | 32,788              |
| Rhent Stryd y Wyddfa                 |            | 7,810               |            | 7,164               |
| Rhent Llyfrgell                      |            | 6,122               |            | 6,000               |
| Hysbysu ar y Wefan                   |            | -                   |            | 210                 |
| Grantiau prosiectau                  |            | 12,980              |            | 10,906              |
| Rhoddion                             |            | 325                 |            | 100                 |
| Incwm Arall                          |            | <u>2,820</u>        |            | <u>2,789</u>        |
|                                      |            | <b>93,137</b>       |            | <b>82,400</b>       |
| <b>Gwariant</b>                      |            |                     |            |                     |
| Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau | (21,708)   |                     | (21,708)   |                     |
| Cyflogau                             | 36,284     |                     | 35,560     |                     |
| Costau Pensiwn                       | 1,542      |                     | 852        |                     |
| Costau Swyddfa                       | 366        |                     | 336        |                     |
| Llogi Offer                          | 363        |                     | 458        |                     |
| Costau prosiectau                    | 14,542     |                     | 9,446      |                     |
| Ffon                                 | 347        |                     | 539        |                     |
| Hysbysebu                            | 354        |                     | 546        |                     |
| Costau Cynnal A Chadw                | 15,259     |                     | 14,237     |                     |
| Gwres a Goleuo                       | 5,824      |                     | 5,775      |                     |
| Trethi                               | 1,654      |                     | 1,411      |                     |
| Yswiriant                            | 6,471      |                     | 4,550      |                     |
| Costau Archwilio                     | 1,920      |                     | 1,890      |                     |
| Costau Proffesiynol                  | 450        |                     | 712        |                     |
| Costau Banc                          | 321        |                     | 369        |                     |
| Manion                               | 531        |                     | 593        |                     |
| Dibrisiant Ar Adeiladau              | 24,228     |                     | 24,228     |                     |
| Dibrisiant Ar Offer                  | <u>606</u> |                     | <u>736</u> |                     |
|                                      |            | <b>89,354</b>       |            | <b>80,530</b>       |
| <b>Gweddill am y flwyddyn</b>        |            | <b><u>3,783</u></b> |            | <b><u>1,870</u></b> |



CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE  
20 HEOL Y DŴR  
PENYGROES  
GWYNEDD  
LL54 6LR

**01286 882688**

[post@anturnantlle.com](mailto:post@anturnantlle.com)

[www.anturnantlle.com](http://www.anturnantlle.com)

[www.facebook.com/anturnantlle](https://www.facebook.com/anturnantlle)



**BRO  
LLEU**  
Byddwch yn rhan o'r **chwedl** ...  
Be part of the **legend**...